



Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

DYFODOL HANES:

Cryfhau hanesion cyhoeddus drwy ymyriadau digidol

Chao Tayiana Maina, [African Digital Heritage](#)

I lawer o gymunedau y mae eu hanes wedi cael ei gamliwio, ei fygu a'i ddileu, mae offer digidol heddiw yn cynnig ffyrdd newydd o ymgysylltu â hanes y tu allan i'r paradeimau sy'n tra-arglwyddiaethu. Mae manau a phlatfformau digidol yn galluogi cymunedau lleiafrifol i siarad am eu rhwystredigaethau ynghylch sut mae hanes yn cael ei gyflwyno. Ac, ar yr un pryd, maen nhw'n rhoi cyfle i bobl siarad am eu gorffennol eu hunain drwy eu lleisiau eu hunain. Yr hyn rydym ni'n ei weld heddiw yw cynnydd mawr mewn cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, blogiau a fideo-logiau ar lu o blatfformau sy'n curaduro cynnwys yn ymwneud â hanes Affrica. Beth y mae hyn yn ei olygu ar gyfer dyfodol hanes, wrth i gynulleidfaoedd addysgu a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Yn y sgwrs hon fe ystyriwn y rhan y mae hanes digidol cyhoeddus yn ei chwarae mewn newid persbectifau ar orffennol Affrica. Mae'r ymagweddau hyn at hanes a chof, a arweinir gan y gynulleidfa, yn denu cynulleidfaoedd newydd ac yn creu manau mawr eu hangen ar gyfer deialog ar wahanol lefelau o gymdeithas. Pa offer, gofynnwn, y mae eu hangen arnom i hybu a chryfhau'r diwylliant hwn o gyfranogiad cyhoeddus mewn sector y bu lleisiau arbenigol a pharadeimau Ewroganolog yn tra-arglwyddiaethu ynddo? Sut y byddwn ni'n mesur effaith y casgliadau a rhyngweithiadau digidol hyn? A sut y gall amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol ddod yn fannau sy'n hwyluso'r trafodaethau hyn?

Bywgraffiad

Arbenigwr mewn treftadaeth ddigidol ac ysgolhaig mewn dyniaethau digidol o Kenya sy'n gweithio ym maes diwylliant a thechnoleg yw Chao Tayina Maina. Hi yw sylfaenydd Treftadaeth Ddigidol Affrica, corff nid-er-elw yn Kenya a sefydlwyd i hybu ymagwedd fwy beirniadol, gyfannol a gwybodaeth-seiliedig at ddylunio a gweithredu datrysiadau digidol o fewn treftadaeth ddiwylliannol Affrica. Mae hi hefyd yn gyd-sylfaenydd y fenter ar-lein, Amgueddfa Gwladychiaeth Brydeinig, ac yn gyd-sylfaenydd y prosiect 'Open Restitution Africa'. Mae ei gwaith wedi cael sylw yn y New York Times, Reuters, Newyddion y BBC, Celfyddydau'r BBC, Ntv, KBC a 3Sat.